

Annwyl Rieni,

Mae'n fore Ddydd Llun unwaith eto a teimlad rhyfedd peidio paratoi i fynd i'r ysgol ar gyfer wythnos newydd. Gobeithio fod pawb yn iawn ac yn cadw'n ddiogel. Cofiwch gallwch gysylltu gyda ni unrhyw bryd ar ebost os hoffech sgwrs.

Yn gyntaf, hoffwn ddiolch o waelod calon i'r plant a chi fel rhieni sydd wedi bod mewn cyswllt gyda'r athrawon ers i ni orfod cau. Mae'r athrawon wrth eu boddau yn clywed gennych a mae'r holl luniau/fidos/posts sydd wedi cael ei uwchlwytho wythnos diwethaf wir wedi codi ein calonnau.

Os nad ydych wedi gwneud cyswllt neu ddangos unrhyw fath o gydnabyddiaeth o dderbyn negeseuon/deunyddiau hyd yn hyn, **gofynnaf i chi wneud hynny mor fuan â phosib** os gwelwch yn dda. Nid ydym yn rhoi pwysau arnoch i gwblhau'r gwaith, ond hoffem petai chi yn gallu gwneud cyswllt. Gall hyn fod yn neges i rannu beth ydych wedi bod yn ei wneud gyda'ch plentyn, boed yn waith ysgol, chwarae yn yr ardd, mynd am dro, garddio, coginio, hyd yn oed neges yn dweud "helo" – unrhyw beth! Mae'r athrawon wir yn gwerthfawrogi unrhyw gyswllt.

Mae'r tabl isod yn cadarnhau pa blatfform dysgu mae gwahanol oedrannu yn ei ddefnyddio i gysylltu. Os nad oes gennych gyfrifiadur, cofiwch fod fersiynau o Seesaw a Microsoft Teams ar gael fel ap hefyd ar gyfer eich ffonau/tabledi – hyn yn ddefnyddiol iawn os ydych eisiau uwchlwytho unrhyw luniau. Hefyd, isod nodir rhai ebyst defnyddiol.

Dosbarthiadau	Platfform Gweithio ar-lein/E-bost
Y Blynyddoedd Cynnar (Meithrin a Derbyn)	Seesaw
Blynyddoedd 1 a 2	Seesaw
Blynyddoedd 3 a 4	Teams
Blynyddoedd 5 a 6	Teams
E-bost Cyffredinol/Swyddfa/Cyswllt gyda Miss Ll.M.Jones	<a href="mailto:postglanrafon@hwbcymru.net">postglanrafon@hwbcymru.net</a>
E-bost ar gyfer unrhyw broblem gyda Seesaw, Teams neu Hwb.	<a href="mailto:huwse@hwbcymru.net">huwse@hwbcymru.net</a>
E-bost Mrs Doli Edwards - ADY/Lles	<a href="mailto:sen-cu@hwbcymru.net">sen-cu@hwbcymru.net</a>

Cofiwch nid yw Dysgu o bell yn rhywbeth rydych yn ei wneud i'n plesio ni, ond rhywbeth sydd o fudd i'ch plentyn. Os nad ydych yn gwneud dim o'r gwaith rydym wedi ei ddarparu, mi fyddai hanner awr o ddarllen a gwaith rhif syml/tablau/dweud yr amser yn gwneud gwahanaieth mawr. Hefyd cofiwch, wrth osod nifer o'r gweithgareddau, rydym wedi ystyried efallai eich bod chi hefyd yn gweithio o adref, felly dylai'r plant allu cwblhau nifer o'r heriau yn annibynnol. Fel eglurwyd yn y llythyr wythnos diwethaf, ein prif flaenoriaeth ydy eich bod yn cadw'n ddiogel, ac mae lles eich plentyn a chithau fel rhieni yn flaenoriaeth gennym. Cofiwch – mae'n bwysig cadw yr ymennydd a'r corff yn brysur er mwyn cadw'n iach.

Cyn gorffen, hoffwn fanteisio ar y cyfle yma i ddiolch i'n hathrawon am eu hymroddiad a'u hymrwymiad yn ystod y cyfnod eithriadol yma. Maent yn rhoi oriau o waith i baratoi deunyddiau a cheisio gwneud cyswllt ar-lein gyda chi. Mae nifer ohonynt gyda theuluoedd eu hunain i ofalu amdanynt adref ond yn parhau i roi amser i'ch plant. Hefyd, mae gweddill y staff mewn cyswllt rheolaidd a hwythau hefyd yn hoff iawn o glywed hanes y plant. Felly, hoffwn ar ran holl blant a'n rhieni, ddiolch o galon i'n holl staff arbennig yn Ysgol Glanrafon.

Diolch yn fawr a cadwch yn saff,

Uwch Dîm Ysgol Glanrafon